GWAREDIGAETH RHAG GOFID BYD-EANG

Nodyn i'r siaradwr:
Gyda chynhesrwydd ag argyhoeddiad, esbonia addewid y Beibl o'r waredigaeth sydd i ddod. Mynega dy hyder yn yr addewid hwn, ac esbonia beth y mae'n rhaid ei wneud i gael ein hachub pan fydd Jehofa yn dinistrio'r drefn ddrwg sydd ohoni

ADDEWID Y BEIBL AM WAREDIGAETH (3 mun.)

Glanhaodd Jehofa y ddaear yn oes Noa drwy gael gwared ar y rhai annuwiol. Mae ei Air yn ein sicrhau ni y bydd yn dinistrio pob un sy'n dinistrio'r ddaear heddiw (2Pe 2:5; 3:5-7; Dat 11:18)

Cyflawnodd Jehofa ei gyfamod, neu addewid, i gadw Noa a'i deulu'n ddiogel drwy'r dilyw (Ge 6:18; 7:1; *it*-1-E 521 ¶3; 522 ¶2)

Gallwn fod yn gwbl hyderus yn addewid y Beibl y bydd Jehofa yn achub pawb sy'n llochesu ynddo ef (Sal 37: 39, 40)

PATRWM O BETHAU I DDOD (5 mun.)

Fe wnaeth barn Jehofa yn erbyn Sodom a Gomorra 'osod esiampl o'r hyn sydd i ddigwydd' **[Darllena 2 Pedr 2:6-8]**

O'i drugaredd, anfonodd Jehofa angylion fel negeswyr i annog Lot a'i deulu i adael y lle heb oedi. Fe 'achubodd Lot cyfiawn' a throdd dinasoedd Sodom a Gomorra yn lludw (Ge 19:12-17, 24, 25)

Deallodd yr apostol Pedr fod gwaredigaeth Lot yn dystiolaeth bendant am allu ac awydd Jehofa i achub pobl ffyddlon **[Darllena 2 Pedr 2:9]**

Mae negeswyr tosturiol a selog heddiw yn dod â newyddion da o waredigaeth i bobl ym mhob man, gan eu hannog i geisio Jehofa cyn i'r diwedd ddod (Seff 2:2, 3; Mth 24:14)

GOROESI'R "CYFNOD BLIN" (12 mun.)

Ysbrydolodd Jehofa y proffwyd Daniel i ysgrifennu am 'gyfnod blin' bydd yn arwain at ddinistr y system ddrygionus bresennol **[Darllena Daniel 12:1]**

Cyfeirir at y cyfnod blin yma hefyd fel y "gorthrymder mawr" (Mth 24:21)

Bydd dechreuad y gorthrymder yn ddigon i godi braw ar lawer, ond eto mae'r Ysgrythurau yn rhagddweud bydd y "bwystfil," sy'n symboleiddio'r Cenhedloedd Unedig, yn ymosod ar "Fabilon Fawr," ymerodraeth fyd-eang gau grefydd (Dat 17:5, 16-18; *w13*-E 7/15 4-5 ¶6-7)

Mae hyn yn dynodi dechrau'r "gorthrymder mawr" a chyfnod blin i'r byd

Yn "yr amser hwnnw" pan ddaw'r cyfnod blin byd-eang, dyna pryd caiff y rhai sy'n addoli Jehofa y cyfle i 'ddianc'

Bydd gwaredigaeth neu achubiaeth yn dibynnu ar ufudd-dod i gyfarwyddiadau Gair Duw a'i gyfundrefn (*w12*-E 4/15 26 ¶16)

Bydd y "cyfnod blin" rhagddywededig yn diweddu yn rhyfel Armagedon (Dat 16:14, 16)

Bryd hynny, bydd Mihangel, sef Iesu yn ei rym nefol, yn 'codi' i weithredu yn enw Jehofa fel Brenin-Ryfelwr anorchfygol (2The 1:6-8; *w10*-E 4/1 19; *dp*-E 288-289 ¶4-6)

Bydd ef yn cael gwared â drygioni yn y byd ac yn agor y ffordd i 'dyrfa fawr' cael ei gadw'n saff drwy Armagedon i'r byd newydd (Dat 7:9, 10, 14)

PARATOI NAWR AR GYFER CAEL EICH ACHUB (10 mun.)

Ym mhroffwydoliaeth Daniel ddisgrifir enwau'r rhai sy'n dianc "fel pob un yr ysgrifennwyd ei enw yn y llyfr" (Da 12:1; *dp*-E 289 ¶7)

"Y llyfr" yw cofrestr Jehofa o'r rhai sy'n gwneud ei ewyllys

Fydd Jehofa byth yn anghofio ei ffyddloniaid (Sal 37:28)

Gan fod dydd Jehofa yn dod "fel lleidr," rydyn ni angen cadw'n effro yn ysbrydol **[Darllena 2 Pedr 3:10-13]** (*w10*-E 7/15 3-7)

Gallwn wneud hyn drwy fyw gyda defosiwn dwyfol (*w10*-E 7/15 11 ¶17-19)

Astudio'r Beibl a rhannu'r hyn rydyn ni wedi ei ddysgu ag eraill (Mth 28:19, 20)

Dangos trwy ein hymddygiad ein bod ni'n caru Duw ac yn gwbl benderfynol ein bod ni am lynu wrtho (1Cr 29:17)

Yn gweddïo arno o'r galon (Php 4:6, 7)

Peidio cefnu ar ein cyfarfodydd (Heb 10:24, 25)

Yn fuan iawn bydd pob problem sy'n plagio'r teulu dynol yn diflannu am byth (Esei 65:17; Dat 21:4, 5)

Gadewch inni i gyd barhau i astudio Gair Duw ac ufuddhau iddo, gan gadw i ddisgwyl wrth Jehofa a'i waredigaeth addawedig i fyd newydd yn rhydd rhag unrhyw bryder neu ofid (Esei 30:18)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr, *Ministry School,* tt. 52-55, 166-169]

© 2015 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania